# TASG 1

**(Craidd, sbardun 1)**

**Gwaith i unigolion**

Edrychwch ar y map yma o Gymru a darllenwch am hanes y daith.
Rhowch saethau ar y map i ddangos y daith.
Tynnwch luniau i ddangos pa gampau roedd rhaid i'r anturiaethwyr eu gwneud ar hyd y ffordd.




- Cychwyn yng Nghastell Caernarfon
- Caiacio i Bier Bangor
- Beicio i Gastell Conwy
- Cyfeiriannu o gwmpas Castell Conwy
- Beicio i Zip World, Bethesda; zipio ar hyd y wifren wib 100 milltir yr awr
- Beicio i lawr Dyffryn Ogwen
- Trecio dros fynyddoedd Eryri a dringo'r Wyddfa
- Padlo cychod i lawr Afon Glaslyn ac ymlaen i Bortmeirion ar gyfer mwy o gyfeiriannu
- Croesi'r aber tuag at Abermaw. Y bwriad oedd caiacio ar draws yr aber ond roedd hi'n rhy wyntog a pheryglus. Felly, roedd rhaid aros i'r llanw fynd allan a chroesi'r aber ar droed, gan lusgo'r caiacs mor bell ag Ynys.
- Beicio o Ynys i Abermaw
- Trecio dros Gadair Idris i Fachynlleth
- Beicio drwy fryniau Canolbarth Cymru, gan aros ym Mhontarfynach a Chwm Elan ar gyfer mwy o gyfeiriannu
- Beicio i'r Clas-ar-Wy
- Caiacio ar hyd afon Gwy i'r Gelli Gandryll ar gyfer mwy o gyfeiriannu – ond gan ddefnyddio hen fapiau o 1860
- Beicio dros y Mynydd Du
- Trecio dros Fannau Brycheiniog
- Cyferiannu o gwmpas ogofâu o dan y ddaear ym Mannau Brycheiniog
- Beicio yn ôl i Gaerdydd ar hyd llwybrau beicio Afan

**Geirfa**

| | | |
|---|---|---|
| aber | lle mae afon yn mynd allan i'r môr | estuary, mouth of a river |
| llanw | Pan fydd y môr yn dod i mewn ac yn mynd allan | tide |
| llusgo | tynnu | to drag |